BWRDD DIOGELU RHANBARTHOL CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# CYLCHLYTHYR

RHIFYN 1, Gaeaf 2022-2023

## NEGES GAN REOLWR Y BWRDD

Croeso i Gylchlythyr cyntaf Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru! Rydym yn falch o lansio'r cyhoeddiad hwn ar ôl llawer iawn o ddatblygu a chynllunio.

Bydd y bwletin chwarterol hwn yn rhoi'r prif ddiweddariadau rhanbarthol a chenedlaethol i chi sy'n digwydd yn y maes diogelu, gan gynnwys polisïau, deddfwriaeth ac adolygiadau ymarfer. Rydym hefyd yn gobeithio defnyddio'r platfform hwn fel modd o ddathlu arferion da yn lleol ac yn rhanbarthol, ac i'ch diweddaru gyda'r datblygiadau mewn meysydd allweddol sydd o ddiddordeb.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau ein rhifyn cyntaf!

Julie Breckon

## YN Y RHIFYN HWN

**CENEDLAETHOL**

⇒ Wythnos Genedlaethol Diogelu 2022

⇒ Dynodi Diwedd Cosb Gorfforol yng Nghymru

⇒ Adroddiad Terfynol ar Gyflawni Camau Gweithredu o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol

⇒ Safonau hyfforddiant, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol NEWYDD

⇒ HYFFORDDIANT AM DDIM: atal ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol ar-lein

⇒ Diwrnodau Ymwybyddiaeth Diogelu

**RHANBARTHOL**

⇒ Lansio Animeiddiad Diogelu gyda'r Comisiynydd Plant

⇒ Cynhadledd Cam-drin Domestig Heddlu Dyfed-Powys

⇒ Seminarau Byw Microsoft Teams

⇒ Sesiynau Briffio 7 munud

⇒ Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion a gyhoeddwyd

⇒ Panel Cynghori Rhanbarthol VAWDASV

⇒ Strategaeth Newydd ar Gamfanteisio ar Blant

⇒ Bwrdd Iau CADW

# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022

Cynhaliwyd Wythnos Genedlaethol Diogelu eleni o

14 tan 18 Tachwedd 2022, gyda'r thema "Symud ymlaen ac Adfer o'r Pandemig". Dan y pennawd bras hwn, cynlluniwyd rhaglen a oedd yn ceisio ymateb i rai o'r heriau y mae plant ac oedolion mewn perygl yn eu hwynebu ar eu taith o adferiad o Bandemig Covid-19.

Trwy gydol yr wythnos, cynhaliwyd chwe digwyddiad allweddol, gan gynnwys cynadleddau a gweminarau a geisiodd godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at faterion sy'n effeithio ar blant ac oedolion sydd mewn perygl ar hyn o bryd. Cefnogwyd y rhaglen ranbarthol hefyd gan ddigwyddiadau cenedlaethol a gynhaliwyd ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys lansio safonau hyfforddi amlasiantaeth newydd dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru a digwyddiad a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol mewn cydweithrediad â'r Uned Atal Trais ar lywio dyfodol diogelu yng Nghymru



Digwyddiad Lansio Animeiddiad yn Stadiwm Parc y Scarlets




Comisiynydd Plant, Ms Rocio Cifuentes

# LANSIO ANIMEIDDIAD DIOGELU GYDA'R COMISIYNYDD PLANT







Prif ddigwyddiad yr wythnos oedd lansio a dathlu adnodd hyfforddi ac animeiddiad fideo ar gyfer gweithwyr proffesiynol. Cynhaliwyd hwn yn Stadiwm Parc y Scarlets yn Llanelli. Cafodd yr animeiddiad fideo ei greu gan blant a phobl ifanc o'n Bwrdd Iau.

Cyflwynwyd y prif anerchiad gan y Comisiynydd Plant newydd, Ms Rocio Cifuentes, a chymeradwyodd y plant a'r bobl ifanc am eu gwaith rhagorol, a thanlinellodd bwysigrwydd rhannu'r adnodd hwn yn ehangach er mwyn lledaenu ei negeseuon allweddol. Gellir gweld y ddau fideo ar ein gwefan.

# WYTHNOS GENEDLAETHOL DIOGELU 2022


## CYNHADLEDD CAM-DRIN DOMESTIG HEDDLU DYFED-POWYS

Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys Gynhadledd Cam-drin Domestig amlasiantaeth llwyddiannus iawn ym Mhencadlys yr Heddlu, lle'r oedd siaradwyr yn cynnwys y rhai hynny â phrofiad byw o gam-drin domestig.

Roedd y rhaglen hefyd yn cynnwys golwg agosach ar gam-drin domestig a dementia, trafodaeth ar bobl hŷn a cham-drin domestig ac effaith cam-drin domestig ar blant. Nododd yr adborth sut roedd y siaradwyr gwadd yn hynod effeithiol, a'i bod yn gynhadledd addysgiadol iawn. Gwnaeth pobl hefyd sylwadau ar sut oedd hi'n dda i fod yn ôl gyda'i gilydd wyneb yn wyneb, ac y byddan nhw'n mynd a llawer o’r hyn a ddysgon nhw yn ôl i'w timau.







## SEMINARAU BYW MICROSOFT TEAMS




Adborth o’r digwyddiad rhithwir 'Think Family' a arweiniwyd gan yr Athro Michael Preston-Shoot

Cynhaliwyd cyfres o Seminarau Byw Microsoft Teams llwyddiannus drwy gydol yr wythnos ddiogelu fel a ganlyn:

- Diogelu Plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth, Mabwysiadwyr a Gwarcheidwaid Arbennig: Dysgu o Adolygiadau Achos 2007-2019
- Ymgyrch Jasmine, mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
- ♦ Think Family — See the Adult, See the Child
- Hybu Iechyd Meddwl Positif a Lles Plant a Phobl Ifanc ers y pandemig COVID-19, mewn cydweithrediad â Thîm Mewngymorth Ysgolion CAMHS

Cafodd y rhain adborth ardderchog ac fe fynychwyd y rhain yn dda iawn. Crëwyd tudalennau gwe penodol hefyd i rannu cyflwyniadau gan siaradwyr, adnoddau hyfforddi, fideos a delweddau o'r digwyddiadau. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan.

# SESIYNAU BRIFFIO 7




Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn creu 'Sesiynau Briffio 7 Munud' fel cymhorthion dysgu i'w defnyddio mewn goruchwyliaeth, cyfarfodydd tîm, ac fel nodyn atgoffa ar gyfer prif faterion sy'n ymwneud â thema benodol neu fater cyfredol. Mae ymchwil yn awgrymu bod saith munud yn rhychwant amser delfrydol i ganolbwyntio a dysgu.

Mae cyhoeddiadau diweddar yn cynnwys:

* **Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl** - Mae'r sesiwn friffio hon yn rhoi diweddariad ar y broses SUSR, gan dynnu sylw at y cynnydd hyd yma a materion y mae angen mynd i'r afael â nhw o hyd. **CYSUR 4 2019** - This offers a summary of findings and recommendations from an Extended Child Practice Review.
* **CYSUR 4 2019** - Mae hyn yn cynnig crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion o Adolygiad Estynedig o Ymarfer Plant.
* **Datrys Protocol Rhanbarthol Gwahaniaethau Proffesiynol** - Pan fydd gwahaniaethau proffesiynol yn digwydd na ellir eu datrys yn anffurfiol, mae'n hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol neu aelod o staff unigol yn gallu herio ymarfer a phenderfyniad pobl eraill yn adeiladol ac yn feirniadol. Rheolwyr sydd felly'n gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn cael cefnogaeth pan maen nhw am adrodd am bryderon ac anghytuno o fewn eu sefydliad eu hunain a/neu rhwng asiantaethau
* **Diogelu Corfforaethol** - Nod y papur briffio 7 munud hwn yw cynorthwyo pawb sy'n gweithio i wasanaethau'r cyngor i ddeall sut y gallant chwarae rôl hanfodol wrth ddiogelu plant ac i ddiwallu eu cyfrifoldebau wrth atal cam-drin plant ac oedolion.

Mae copïau o'n holl Sesiynau Briffio 7 Munud i'w gweld ar ein tudalen Sesiynau Briffio 7 Munud.

Os oes gennych chi neu'ch tîm awgrymiadau ar gyfer sesiynau briffio yn y dyfodol a fyddai'n ddefnyddiol i chi, anfonwch eich awgrymiadau at reolwr CYSUR, Julie Breckon, ar CYSUR@pembrokeshire.gov.uk

# DYNODI DIWEDD COSB GORFFOROL YNG NGHYMRU





Bydd mis Mawrth yn nodi blwyddyn ers newid y gyfraith o ran defnyddio cosbi corfforol yng Nghymru. Mae pob cosb gorfforol bellach yn anghyfreithlon ac mae gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion. Mae unrhyw un sy'n cosbi plentyn yn gorfforol mewn perygl o gael ei arestio neu ei gyhuddo o ymosod.

Mae **Magu Plant. Rhowch amser iddo** yn cynnig awgrymiadau a chyngor arbenigol ar rianta positif i annog ymddygiad da gan blant a dewisiadau amgen i gosb gorfforol. Mae eu tudalen cymorth rhianta yn cynnig dolenni i gefnogaeth a llinellau cymorth pellach.

## ADRODDIAD TERFYNOL AR GYFLAWNI GWEITHREDOEDD O DAN Y CYNLLUN GWEITHREDU CENEDLAETHOL AR GAM-DRIN PLANT YN RHYWIOL

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (CSA) yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i atal CSA, er mwyn amddiffyn plant rhag CSA ac i gefnogi plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol. Cafodd adroddiad dilynol diweddar "Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol" ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru hefydsy'n nodi'r hyn sydd wedi'i gyflawni o dan Gynllun Gweithredu CSA rhwng mis Gorffennaf 2019 a Mehefin 2022




Yn yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd at waith Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wrth gefnogi a chyflawni yn erbyn y cynllun hwn, sawl tro.

Teimlwm fod y gweithgaredd hwn yn adlewyrchu'n arbennig o odda ar y Bwrdd a hoffem ddiolch i holl bartneriaid ac ymarferwyr ein Bwrdd yn y rhanbarth am eich gwaith a'ch cyfraniad at gyflawni'r cynllun hwn.Mae copi o'r adroddiad ar gael i'w weld ar ein gwefan.

## ADOLYGIADAU YMARFER PLANT AC OEDOLION A GYHOEDDWYD



Prif bwrpas adolygiadau ymarfer yw nodi unrhyw gamau y gellir eu cymryd gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu i sicrhau gwelliannau mewn ymarfer amlasiantaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi a ddysgwyd y dylid eu lledaenu, a dylid gweithredu unrhyw argymhelliad sy'n codi fel bod y newidiadau sydd eu hangen yn arwain at blant yn cael eu hamddiffyn rhag dioddefaint neu niwed yn y dyfodo

Mae copïau o adolygiadau ymarfer a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gael ar dudalennau Adolygiad Ymarfer Plant ac Oedolion ein gwefan

**CYSUR 4 2019 - Adolygiad Estynedig o Ymarfer Plant**

- ◊ Adroddiad a gyhoeddwyd
- ◊ Sesiwn Friffio 7 munud

# SAFONAU HYFFORDDIANT,

# DYSGU A DATBLYGU CENEDLAETHOL NEWYDD

Lansiwyd Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol newydd fel rhan o Wythnos Genedlaethol Diogelu 2022, ar ôl cael eu datblygu gan grŵp amlasiantaeth cenedlaethol a oedd yn cynnwys Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r safonau'n cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer gwybodaeth, sgiliau, agweddau a gwerthoedd ar gyfer pobl sy'n gweithio gydag oedolion a phlant a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu niweidio neu eu hesgeuluso.

Mae'r safonau newydd hyn wedi'u hysgrifennu mewn ffordd y gall pawb weld beth y disgwylir i bob ymarferydd ei wneud wrth gyflawni eu dyletswydd diogelu ac maent yn berthnasol i bawb sy’n gweithio mewn :



- ⇒ awdurdodau lleol
- ⇒ gofal cymdeithasol
- ⇒ blynyddoedd cynnar a gofal plant
- ⇒ iechyd
- ⇒ yr heddlu
- ⇒ addysg
- ⇒ Gwasanaeth Prawf
- ⇒ arolygiaethau
- ⇒ sefydliadau’r trydydd sector a’r sector annibynnol
- ⇒ darparwyr a gomisiynir
- ⇒ asiantaethau neu sefydliadau sy'n gweithio gyda'r gwasanaethau uchod.

Anogir pob ymarferydd i ddod yn gyfarwydd â'r safonau a sut maent yn ymwneud â'u priod feysydd gwaith. Mae'r safonau bellach yn fyw; i'w cyrchu neu i ddysgu mwy, ewch i wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

# PANEL CYNGHORI RHANBARTHOL VAWDASV

Ar hyn o bryd mae Partneriaeth Rhanbarthol VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol) yn sefydlu panel cynghori i Oroeswyr ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru .

Pwrpas y panel yw dod â goroeswyr a lleisiau goroeswyr ynghyd, gydag asiantaethau statudol a darparwr i lywio a dylanwadu ar bolisi ac ymarfer yn y rhanbarth. Fel arbenigwyr drwy brofiad byw o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, bydd y panel yn darparu mecanwaith i sicrhau bod anghenion y goroeswyr wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaeth VAWDASV yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

Am fwy o wybodaeth, ewch I’r dudalen bwrpasol ar ein gwefan. Fel arall, gallwch gysylltu â thîm rhanbarthol VAWDASV yn uniongyrchol trwy e-bostio mww.survivor.panel@gmail.com



# STRATEGAETH CAMFANTEISIO AR BLANT NEWYDD


Child Exploitation Strategy Document

APPROVED

THE MID AND WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

| Version | Revision Date | Owner | Date approved by Exec Board | Review Date |
|---|---|---|---|---|
| V1 | | Mid and West Wales Safeguarding Board | 18/10/2022 | 18/10/2024 |

Mae Strategaeth Camfanteisio ar Blant sydd newydd ei diweddaru bellach wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan sy'n nodi ein blaenoriaethau ac yn gwneud ymrwymiad pendant i atal a mynd i'r afael â cham-fanteisio ar blant. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei datblygu'n brosiect cydweithredol ar draws y rhanbarth gan y pedwar Awdurdod Lleol, dau Fwrdd Iechyd a Heddlu Dyfed-Powys, dan arweiniad Gwasanaethau Plant Powys, a'i nod yw cefnogi dull gweithredu ac ymateb cyson gan yr holl asiantaethau pan nodir achosion o Gamfanteisio ar Blant.

Gallwch gyrchu'r ddogfen Strategaeth Camfanteisio ar Blant ar y dudalen polisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol o'n gwefan

# HYFFORDDIANT AM DDIM: ATAL AC YMATEB I DIGWYDDIADAU O AFLONYDDU RHYWIOL AR-LEIN

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sesiwn hyfforddi 2 awr am ddim ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd sy'n bersonau diogelu dynodedig (DSP) yng Nghymru i helpu gyda dealltwriaeth, atal ac ymateb i ddigwyddiadau o aflonyddu rhywiol ar-lein ymhlith dysgwyr o fewn yr ysgol neu leoliad.

Mae hyfforddiant ar gael i DSPau neu unrhyw aelodau o staff sy'n ymwneud â chefnogi lles cymuned yr ysgol.

Mae dyddiadau ar gael ar gyfer ardaloedd o fewn y rhanbarth hwn o fis Ionawr i fis Mawrth; mae manylion ar sut i gofrestru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# BWRDD IAU CADW

Mae CADW wedi cael blwyddyn brysur, yn gweithio ar lansiad eu hanimeiddiad hyfforddi gwych a chael eu dogfennu wrth wylio'r adnodd gorffenedig am y tro cyntaf. Lansiwyd eu hanimeiddiad, dan y teitl The Do's and Don'ts of Caring, yn swyddogol yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu.2022, gyda chefnogaeth a phresenoldeb y Comisiynydd Plant ar gyfer Cymru. Mae'r adnodd wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio fel rhan o hyfforddiant diogelu ar gyfer ymarferwyr

Yn ogystal, crëwyd fideo cysylltiedig 'A reflection on the Do's and Don'ts of Caring' gan Theo Delahaye, cyn-aelod o'r Bwrdd Iau, a oedd wedi casglu ymatebion aelodau'r grŵp pan welson nhw'r adnodd am y tro cyntaf yn eu digwyddiad preswyl blynyddol.

Yn ôl yr adborth gan ymarferwyr yn lansiad yr animeiddiad, canmolwyd y cyflawniadau ac anogwyd y dylid defnyddio a gweld yr animeiddiad a'r fideo gyda'i gilydd i gael yr effaith fwyaf posibl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar yr hyn y bydd ymarferwyr yn ei wneud yn wahanol ar ôl gwylio'r fideo (e.e. osgoi nodi, ymgorffori adnodd mewn cyfarfodydd), sut y byddant yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu clywed mewn cyfarfodydd (e.e. cyd-gadeirio adolygiadau LAC, cyrff disgyblion yn cael llais) a sut y byddant yn addasu hyfforddiant i ymgorffori cynnwys y fideo a'r ffilm gysylltiedig (e.e. cynnwys mewn hyfforddiant yn yr ysgol, cyfarfodydd staff).

Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn gweithio ar fersiwn Cymraeg o'r adnodd i'w wneud hyd yn oed yn fwy hygyrch. Gellir cyrchu'r ddau fideo o'n gwefan.


Aelodau'r Bwrdd Iau yn y digwyddiad lansio







Adnoddau Diogelu Bwrdd Iau

# DIWRNODAU YMWYBYDDIAETH DIOGELU

Dewch o hyd i ddyddiadau diwrnod ymwybyddiaeth diogelu sydd ar ddod, ar gyfer eich dyddiaduron. Cofiwch ein dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol am ddolenni ac adnoddau sy'n cefnogi

## Chwefror

| | |
|---|---|
| 1st Chwefror | Diwrnod Gweithredu Urddas |
| 2nd Chwefror | Diwrnod Amser i Siarad |
| 6th Chwefror | Diwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch i FGM |
| 6th—12th Chwefror | Wythnos Iechyd Meddwl Plant 2023 |
| 6th—12th Chwefror | Wythnos Cam-drin Rhywiol a Thrais Rhywiol 2023 |
| 7th Chwefror | Diwrnod Defnyddio'r Rhyngrwyd yn Fwy Diogel |

## Mawrth

| | |
|---|---|
| 1st Mawrth | Diwrnod Ymwybyddiaeth Hunan-niweidio |
| 8th Mawrth | Diwrnod Rhyngwladol Wythnos |
| 13th—19th Mawrth | Wythnos Cysgu Mwy Diogel 2023 |
| 15th Mawrth | Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc |
| 21st Mawrth | Diwrnod Gwaith Cymdeithasol y Byd |

# EIN CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**FACEBOOK**

@CYSURCYMRU

**INSTAGRAM**

@CYSURCYMRU

**TWITTER**

@CYSURCYMRU

@CWMPASCYMRU

# CYSYLLTWC HANI

E-bost:

cysur@pembrokeshire.gov.uk for CYSUR
cwmpas@pembrokeshire.gov.uk for CWMPAS

Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales Safeguarding Board